

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Gweithio gyda Myfyrwyr
Prifysgol De Cymru

Canllaw i Gyflogwyr

www.southwales.ac.uk/employers

Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Ffoniwch: 01443 482 080

Ewch i: www.southwales.ac.uk/careers

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Ewch i www.southwales.ac.uk/employers am y wybodaeth ddiweddaraf.

Fel rhan o hymrwymiad at yr iaith Gymraeg y mae'r Brifysgol yn darparu gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. I wybod mwy, ewch i www.decymru.ac.uk neu e-bostiwch cymraeg@decymru.ac.uk.

Dylunio: Argraffu a Dylunio Prifysgol De Cymru 01443 482 677

Mae Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig. Rhif Cofrestru: 1140312
Mae Grad Edge yn nod masnach cofrestredig o eiddo Prifysgol De Cymru



Gweithio gyda Thalent Yfory

- Gyda chymuned amrywiol o fwy na 33,000 o fyfyrwyr mewn campysau ar draws de Cymru, mae Prifysgol De Cymru yn ganolbwynt sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a all ychwanegu gwerth at eich busnes.
- Mae ein myfyrwyr yn astudio cyrsiau sydd â'u gwreiddiau yn y byd go iawn. Maen nhw'n gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr i'ch sefydliad o'r cychwyn cyntaf – pa un ai a ydych yn y sector preifat, y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector.
- Mae Gwasanaeth Gyrfaedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio'ch sefydliad a'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol:
 - Hysbysebu unrhyw fath o swydd wag gyda ni yn rhad ac am ddim
 - Cynnig cyfleoedd profiad gwaith i'n myfyrwyr a'n graddedigion
 - Codi'ch proffil trwy arddangosiadau yn ein digwyddiadau gyrfaedd mawr, cynnal darlithoedd gwadd neu weithdai pwrpasol.

Ydych chi'n edrych am fathau eraill o gefnogaeth? Mae diddordeb gennym ni bob amser mewn ffyrdd newydd o ddatblygu partneriaethau cryf gyda busnesau, felly cysylltwch â ni.



Cyflogwyr sy'n Gweithio gyda ni:

- Admiral Group plc
- AgustaWestland
- CGI
- Llwybr Carlam y Gwasanaeth Sifil
- Deloitte
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Enterprise Rent-a-Car
- GE Aviation
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- IBM
- Legal & General
- Lidl UK
- L'Oreal
- Kier Group plc
- Network Rail
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- PwC
- Wahaca
- Swyddfa Archwilio Cymru

"Cymorth ardderchog gan y staff trwy gydol y digwyddiad ac roedd y myfyrwyr mor weithredol a brwdfrydig."

IBM (mynychu Ffair Cyfleoedd)

"Roedd myfyrwyr yn y Ffair Cyfleoedd yn ardderchog – wedi'u paratoi'n dda iawn!"

CGI (mynychu Ffair Cyfleoedd)

Dulliau Cost Effeithiol i Hybu Ymgyrchoedd Recriwtio Graddedigion

Recriwtio ein Myfyrwyr a'n Graddedigion

- Hysbysebu swyddi gwag a lleoliadau ar ein porth gyrfaeodded ar-lein, UniLife Connect. Mae hyn yn syml ac yn rhad ac am ddim.
- Targedu carfannau academaidd penodol i recriwtio ar gyfer swyddi arbenigol. Gallwn lunio cynllun gweithredu i chi ar y ffordd orau o gyrraedd grwpiau penodol o fyfyrwyr.

Cyfleoedd Profiad Gwaith

- Lleoliadau rhyngosod
- Lleoliadau byrion
- Prosiectau byw
- Cysgodi gwaith
- Swyddi rhan-amser
- Gwirfoddoli
- Cymryd rhan yn y rhaglen cyflogadwyedd Grad Edge

Cyfleusterau o'r Radd Flaenaf

- Defnyddio ein cyfleusterau i gynnal gweithgareddau recriwtio, cyfarfodydd tîm neu weithgareddau grŵp eraill.

"Perffaith – wedi'i drefnu'n dda a myfyrwyr o safon eithriadol o uchel. Hon yw fy 12fed ffair ers canol mis Medi ac mae canran y myfyrwyr y byddaf yn eu gwahodd i gyfweiliad heddiw yn uwch nag unrhyw ddigwyddiad o'r blaen. Diolch yn fawr!"

Mash Staffing (mynychu Ffair Swyddi rhan-amser)

"Mae Chwaraeon RhCT yn fawr ei ddyled i leoliadau myfyrwyr Prifysgol De Cymru. Mae'r berthynas rhwng Chwaraeon RhCT a'r Brifysgol wedi'i seilio ar gryfder ac angerdd y myfyrwyr. Mae'r adnodd myfyrwyr yn amhrisiadwy ac yn hanfodol er mwyn gallu cynnal rhaglen chwaraeon gynhwysfawr yn Rhondda Cynon Taf."

Gethin Smart, Swyddog Chwaraeon Cymunedol, Chwaraeon RhCT

Noddi a Chymeradwyo

- Noddi gweithgarwch cyflogadwyedd a gyrfaeodded allweddol ar draws ein campysau.
- Darparu cynnwys ar gyfer astudiaethau achos, fideo neu gyfweiliadau i'w defnyddio yn ein deunyddiau hyrwyddo ar-lein ac mewn print.

Codi'ch Proffil ar y Campws

- Mynychu digwyddiadau'r Gwasanaeth Gyrfaeodded a Chyflogadwyedd ar ein campysau.
- Cynnal sesiwn sgiliau neu weithdy gyrfaeodded ar ein campysau.
- Gwneud cyflwyniad i wahodd myfyrwyr i ddarganfod mwy am gynllun graddedigion eich sefydliad.
- "Cyflogwr yn y Cyntedd": sefydlu stondin yn un o'n campysau i hyrwyddo'ch sefydliad i fyfyrwyr yn uniongyrchol.
- Hyrwyddo ar-lein trwy ein porth myfyrwyr a'r cyfryngau cymdeithasol.



Cysylltu Addysg â'r Byd Gwaith

Mae darganfod staff sydd â'r sgiliau sydd eu hangen ar eich busnes yn gallu bod yn dipyn o her. Rydym eisiau eich helpu i fynd i'r afael â hyn trwy sicrhau bod ein myfyrwyr yn graddio nid yn unig gyda gradd ragorol, ond bod ganddynt hefyd y nodweddion personol a'r cryfderau sydd eu hangen arnoch.

Rydym yn annog ein myfyrwyr i gyd i fynd am gyfleoedd i ennill profiad ymarferol sy'n gysylltiedig â'u dewis yrfa neu'r radd maen nhw'n ei hastudio.

Trwy gynnig cyfleoedd profiad gwaith i'n myfyrwyr, bydd eich sefydliad yn cyfrannu at weithlu o raddedigion sy'n fwy craff a deallus.

Ein nod yw sicrhau bod eich profiad o weithio gyda'r Brifysgol yn un syml a boddhaol ac rydym yn hyblyg yn y modd y gallwn gefnogi'ch sefydliad.

Siaradwch â'n Gwasanaeth Gyrfaeodded a Chyflogadwyedd am gynnig cyfleoedd i'n myfyrwyr ar gyfer:

- Lleoliadau rhyngosod/diwydiant/blwyddyn gyfan
- Interniaethau haf
- Cysgodi gwaith
- Swyddi rhan-amser
- Prosiectau byw fel rhan o'u cwrs
- Gwirfoddoli
- Oes syniad gennych chi? Rhowch wybod i ni.

Mae holl weithgarwch cyflogadwyedd Prifysgol De Cymru yn cael ei ategu gan y fenter Grad Edge. Gweler tudalen 8 am ragor o wybodaeth.

Beth yw'r Manteision i'm Busnes?

Sut gall myfyriwr profiad gwaith Prifysgol De Cymru helpu i ychwanegu gwerth at eich busnes?

Mae ein myfyrwyr yn chwilio am brofiad ar lefel graddedigion. Nid dyma'r cyfle i fireinio eu sgiliau gwneud paned a llungopio, ond dyma gyfle i roi eu gwybodaeth dechnegol ar waith ac ymateb yn realistig i heriau busnes go iawn.

Manteision sy'n gysylltiedig â gwaith Gallai aelod ychwanegol olygu:

- Cyflawni prosiect nad ydych wedi cael amser neu adnoddau digonol i ganolbwyntio arno o'r blaen
- Syniadau newydd a safbwynt ffres
- Pâr o ddwylo ychwanegol ar adegau prysuraf y flwyddyn heb orfod ymrwymo i gontract parhaol

Manteision sy'n gysylltiedig â busnes Bydd gweithio gyda'r Brifysgol yn eich galluogi i:

- Gael mynediad i gronfa talent amrywiol gydag ystod o sgiliau arbenigol
- Cael cyfle i weithio gyda'n staff academiaidd, er mwyn dylanwadu ar gynnwys cyrsiau a mynd i'r afael â bylchau sgiliau o bosib, ond hefyd i ennill y wybodaeth ddiweddaraf gan arbenigwyr yn eich maes

Manteision sy'n gysylltiedig â recriwtio Mae dod i adnabod eich darpar gyflogaion yn gallu:

- Cyfrannu'n arwyddocaol at eich strategaeth canfod talent. Mae myfyrwyr profiad gwaith yn aml yn ymuno â'r cyflogwyr hynny yn amser llawn ar ôl graddio



Gwella technegau rheoli gyrfa

Roedd cyflogwyr yn pwysleisio'n fawr pa mor bwysig yw ystod o dechnegau chwilio am swydd. Rydym wedi ystyried yr adborth hwn o ddifrif ac wedi cyfrannu'r holl sgiliau ymarferol yn y dyfarniad Grad Edge.

Rydym yn rhagweld y bydd y gweithgareddau hyn a chyflawni'r dyfarniad yn gwella cyflogadwyedd ein myfyrwyr a'n graddedigion yn arwyddocaol, a'u helpu i sefyll allan o'r dorf wrth chwilio am swydd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:
www.southwales.ac.uk/gradedge

"Mae Admiral yn falch o gael bod yn rhan o ddatblygiad y dyfarniad Grad Edge. Rydym yn credu ei bod yn fenter ragweithiol hanfodol sy'n canolbwyntio'n benodol ar egwyddorion trosfwaol profiad gwaith, datblygu sgiliau cyflogadwyedd, ymarfer technegau ymgeisio am swydd a rheoli disgwyliadau cyflogwyr. Bydd y rhaglen yn darparu'r sail orau sy'n bosib i fyfyrwyr Prifysgol De Cymru wrth baratoi ar gyfer yr her o chwilio am swydd a'r byd gwaith."

Wendy Sleat, Rheolwr Recriwtio Gweithredol,
Admiral Group plc

GRAD EDGE™

Mae cwrs ym Mhrifysgol De Cymru yn fwy na gradd yn unig. Mae cyflogadwyedd yn rhan greiddiol o bopeth a wnawn.

Dyna'r rheswm rydym wedi creu Grad Edge, sef ein rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau a ddyfeisiwyd i wneud i'n myfyrwyr feddwl am sut i sefydlu gyrfaoedd llwyddiannus fel graddedigion. O weithdai a arweinir gan

Cwblhau profiad gwaith ystyrlon

- Rydym yn gofyn am leiafswm o 70 awr ac yn mynnu bod o leiaf 35 awr o hyn yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r llwybr gyrfa mae'r myfyriwr am ei ddilyn neu'r radd maen nhw'n ei hastudio.
- Rydym yn cydnabod gwerth gweithgareddau eraill, fel gwirfoddoli a gwaith rhan-amser, o ran hybu cyflogadwyedd myfyrwyr. Rydym yn eu hannog i ystyried cyfraniad y pethau hyn at ddatblygu eu sgiliau lefel graddedigion.
- Rydym yn gofyn i gyflogwyr a goruchwylwyr profiad gwaith i roi geirada neu argymhelliad LinkedIn.

gyflogwyr fel chithau i gymorth menter, rydym yn darparu ystod amrywiol o gyngor ymarferol, cyfarwyddyd gyrfaoedd personol a chyfleoedd i ddatblygu eu rhwydwaith proffesiynol.

Mae'r dyfarniad Grad Edge wrth galon y fenter hon, a gynlluniwyd ac a grëwyd gan ein myfyrwyr a'n staff academiaidd, mewn partneriaeth â chyflogwyr allweddol o ystod eang o ddiwydiannau. Mae'r Dyfarniad yn canolbwyntio ar y tri phrif faes isod:

Datblygu sgiliau lefel graddedigion ar gyfer y gweithle

Rydym wedi gofyn i ystod o gyflogwyr beth yw'r gwahaniaeth rhwng graddedigion da a graddedigion gwych. Mae eu hatebion wedi bod yn sail i'r ystod o sgiliau rydym yn annog ein myfyrwyr i asesu eu hunain yn eu herbyn nhw a'u datblygu.



“Un o'm cyflawniadau mwyaf oedd rhoi gweithgaredd arbed costau ar waith, trwy symud chwe rhan o un ffowndri i un arall. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arbed mwy na £32,000 i'r cwmni bob blwyddyn. Roeddwn yn ymwneud yn fawr â'r broses fusnes gyfan, o gwrdd â'r cyflenwr i reoli cyfarfodydd mewnol i wneud yn siŵr bod pawb yn gwybod beth oedd yn digwydd a'r diweddaraf am unrhyw faterion. Bydd y math hwn o brofiad yn fanteisiol iawn ar fy CV.”

Roedd Elliot Davies, myfyriwr BA (Anrhydedd) Logisteg a Rheoli Cadwyn Gyflenwi, wedi cwblhau lleoliad fel Intern Cadwyn Gyflenwi yn Crane Process Flow Technologies yng Nghwmbrân. Ar ddiwedd y lleoliad, cafodd Elliot gynnig swydd ran-amser gyda'r cwmni a bydd yn gwneud hyn ochr yn ochr â'i astudiaethau.

“Mae Crane Cwmbwrân bob amser yn credu bod Prifysgol De Cymru yn ffynhonnell ragorol i gael intern. Elliot oedd y pumed mewn pum mlynedd. Rydym yn pwysleisio'n fawr bod pob intern sy'n dod atom ni'n mynd i mewn i swydd go iawn, gyda'r un cyfrifoldeb â'n staff eraill. Does neb wedi siomi hyd yn hyn gyda'u parodrwydd, eu hymroddiad, eu prydlondeb a'u gallu yn gyffredinol!”

Mike Gadd, Rheolwr Cadwyn Gyflenwi, Crane Process Flow Technologies Ltd

Am fwy o wybodaeth am yr ystod amrywiol a blaengar o gyrsiau sydd ar gael gennym – y mae llawer ohonynt yn cael eu hachredu gan gyrff proffesiynol – ewch i: www.southwales.ac.uk/courses



Cydfanteision: Hanfodion Profiad Gwaith Llwyddiannus

- Ystyriwch amseriad y flwyddyn academiaidd wrth bennu'ch gofynion a'ch disgwyliadau. Mae disgwyl i'n myfyrwyr gynnal lefelau addas o bresenoldeb drwy gydol y flwyddyn academiaidd. Fel arfer, bydd lleoliadau blwyddyn ryngosod yn dechrau yn yr haf ac yn parhau tan fis Medi y flwyddyn ganlynol.
- Meddylwch am werth y profiad gallwch ei gynnig i'r myfyrwyr. Bydd gosod prosiect ag amcan busnes cytûn yn debygol o'u herio i weithio'n broffesiynol, a gobeithir y bydd y canlyniad yn rhoi mantais ddiriaethol i'ch sefydliad.
- Fel rhan o ddyfarniad cyflogadwyedd Grad Edge y Brifysgol, rydym yn argymhell bod ein myfyrwyr yn gosod nodau ac amcanion cyflawnadwy iddyn nhw eu hunain cyn rhoi cychwyn ar brofiad gwaith. Bydd adnabod ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain yn ystod eu cyfnod yn eich sefydliad yn cyfrannu'n arwyddocaol at eu llwyddiant.
- Bydd paru myfyrwyr â mentor neu oruchwyliwr yn eich sefydliad yn rhoi cyswllt defnyddiol o ddydd i ddydd i ateb unrhyw gwestiynau neu ddelio ag unrhyw bryderon sydd ganddynt.
- Rhoi adborth. Dyma'r ffordd orau i sicrhau bod y myfyrwyr a chithau'n cael yr hyn rydych ei angen o'u hamser gyda'ch sefydliad.

Gweithio gyda Myfyriwr: Rhestr Wirio

- Creu disgrifiad swydd/prosiect fel bod y myfyriwr a chithau'n gwybod beth i'w ddisgwyl
- Hysbysebu'r cyfle i'n 33,000 o fyfyrwyr am ddim ar borth ar-lein UniLife Connect y Brifysgol. Cewch fwy o wybodaeth yn www.southwales.ac.uk/futuretalent neu cysylltwch â ni os ydych yn awyddus i weithio gyda charfan academiaidd benodol o fyfyrwyr.
- Derbyn ceisiadau, dewis a recriwtio'r myfyriwr delfrydol trwy eich proses asesu
- Darparu'r hyfforddiant a'r cymorth sefydlu priodol a sicrhau bod y myfyriwr yn deall eich diwylliant gwaith. Ydych chi'n gweithio o 9 tan 5 mewn gwsg ffurfiol? Beth rydych chi'n ei ddisgwyl gan y myfyriwr a beth ddylai'r myfyriwr ei ddisgwyl gennych chi?
- Cyfathrebu'n glir â'r myfyriwr trwy gydol ei amser gyda'ch sefydliad. Ni allwch ddatrys unrhyw bryderon o ran perfformiad os nad yw'r myfyriwr yn ymwybodol ohonynt.

Syniadau am Brosiect

Meddylwch sut gallai cwblhau prosiect wneud pethau'n haws, yn well neu'n rhatach i chi a'ch cwsmeriaid. Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Cynnal arolygon, dadansoddi data a chynhyrchu adroddiadau
- Gwneud ymchwil marchnad i ddarganfod cwsmeriaid newydd posibl
- Prosiectau creadigol, gan ganolbwyntio ar farchnata neu ddylunio
- Buddsoddi a gweithredu camau effeithiolrwydd a gweithgarwch arbed costau
- Gweithio gyda gwerthwyr a rhanddeilaid allanol